**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol**
**a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 trwy Zoom**

PRESENNOL

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd John B Hughes
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, Cynrychiolydd y Gweithwyr (Cadeirydd)
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Stuart Stanley, Undeb y Brigadau Tân

Ymgynghorwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Rebecca Marfleet, Swyddog Pensiynau

Cofnodydd
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt yr Aelodau

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Bryan Apsley
Duncan Stewart-Ball, Undeb y Brigadau Tân

2 CADARNHAU'R CADEIRYDD

Eglurwyd wrth yr Aelodau bod angen adolygu aelodaeth y Bwrdd yn dilyn etholiad llywodraeth leol. Gyda chytundeb yr aelodau, argymhellwyd bod Richard Fairhead yn parhau am yr ail flwyddyn yn ei rôl fel Cadeirydd y Bwrdd.

**Penderfynwyd cytuno bod Richard Fairhead yn parhau i fod yn Gadeirydd y Bwrdd ar gyfer 2022/23.**

3 AILETHOL AELODAU

Cadarnhawyd aelodaeth y Bwrdd fel a ganlyn:

Cynrychiolwyr y Cyflogwr:
Y Cynghorydd Bryan Apsley
Y Cynghorydd John B Hughes
Dafydd Edwards, Trysorydd
Gareth Owens, Clerc.

Cynrychiolwyr y Gweithwyr:
Richard Fairhead, Cymdeithas yr Arweinwyr Tân - Prospect, Cynrychiolydd y Gweithwyr (Cadeirydd)
Bob Mason, Cymdeithas y Swyddogion Tân
Stuart Stanley, Undeb y Brigadau Tân
Duncan Stewart-Ball, Undeb y Brigadau Tân

Cadarnhawyd y gallai eilydd fynychu'r cyfarfod pe bai angen. Fodd bynnag, byddai angen iddynt fod wedi cwblhau holl fodiwlau hyfforddi'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

4 DATGANIADAU O FUDDIANT

4.1 Dim.

5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

5.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

6 CYLCH GORCHWYL Y BWRDD PENSIWN LLEOL

6.1 Cyflwynwyd y cylch gorchwyl i'w ystyried.

6.2 **PENDERFYNWYD cytuno ar y cylch gorchwyl.**

7 HYFFORDDIANT

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur sesiwn hyfforddi cynefino ar waith y Bwrdd Pensiwn Lleol. Nodwyd mai un o ofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau yw bod pob aelod wedi cael hyfforddiant priodol ac yn meddu ar ddigon o wybodaeth am y Cynlluniau. Roedd yr hyfforddiant yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- y Fframwaith Cyfreithiol
- Cynllun(iau) Pensiwn y Diffoddwyr Tân
- yr agweddau ariannol
- rheoleiddio'r cynllun
- mynd i'r afael â phryderon mewn modd anffurfiol lle bo modd; fel arall bydd y broses ffurfiol a elwir yn weithdrefn datrys anghydfod mewnol (IDRP) yn cael ei dilyn.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd a diolch i PSTC MacArthur am y cyflwyniad addysgiadol.**

8 BLAENGYNLLUN GWAITH

8.1 Cyflwynwyd y blaengynllun gwaith i'r Aelodau er mwyn rhoi trosolwg o’r gwaith i’r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23.

8.2 Cytunwyd y byddai elfen o hyfforddiant ar agenda pob cyfarfod ac y bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant yn cael ei gynnal yn y cyfarfod nesaf.

8.3 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r cynllun gwaith a’r dyddiadau arfaethedig ar gyfer 2022/23;**

**(ii) cytuno y byddai elfen o hyfforddiant ar yr agenda ar gyfer pob cyfarfod ac y bydd dadansoddiad o anghenion hyfforddiant yn cael ei gynnal yn y cyfarfod nesaf.**

9 CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD DIWEDDARU

9.1 Cyflwynodd y Swyddog Pensiynau'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y materion cyfredol yn ymwneud â Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân fel a ganlyn:

- gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022, mae/bydd pob aelod gweithredol ac aelodau'r dyfodol yn rhan o Gynllun Pensiwn 2015. Cyn mis Ebrill 2022, roedd pedwar cynllun pensiwn gwahanol;
- cynhelir ymarfer cofrestru awtomatig ym mis Hydref 2022 yn unol â Deddf Pensiynau 2008 sy'n nodi bod angen i’r unigolion hynny sydd wedi optio allan o’r cynllun pensiwn, bob tair blynedd, gael eu rhoi mewn eto, ac mae’n ofynnol iddynt ail-ddatgan cydymffurfiaeth gan ddangos tystiolaeth o'r ymarfer hwn;
- comisiynwyd Adran Actiwari'r Llywodraeth i gynnal prisiad bob pedair blynedd o gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Mae'r fframwaith prisio hwn yn caniatáu mwy o dryloywder o ran rhannu risg rhwng aelodau a threthdalwyr;
- bydd dangosfwrdd pensiynau’n cael ei gyflwyno i helpu unigolion, a allai fod â nifer o bolisïau pensiwn, i weld yr holl wybodaeth am eu pensiynau mewn un lle. Mae hwn yn brosiect cenedlaethol ac mae'r Gwasanaeth bellach yn y cam sydd wedi'i amserlennu ar gyfer Ebrill 2024.

9.2 **PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

10 DIWEDDARIAD CRONFA BENSIWN DYFED (GWEINYDDWR Y CYNLLUN)

10.1 Cyflwynodd PSTC Macarthur adroddiad Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi gwybodaeth am y meysydd canlynol:

- Diweddariad Rheoleiddio

- E-gyfathrebu
- Cymodi GMP
- Fy Mhensiynau Ar-lein
- Llif gwaith.

10.2 Cafodd pwysigrwydd bod aelodau'r cynllun pensiwn yn gwirio eu cyfrif Fy Mhensiynau Arlein ei bwysleisio eto gan mai dyma'r ffordd gyflymaf a hawsaf o nodi unrhyw broblemau. Nodwyd bod angen i gyrff cynrychioliadol barhau i gyfathrebu hyn a'i hyrwyddo ymysg eu haelodau.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11 DIWEDDARIAD AR FATERION CYFREITHIOL

11.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar faterion cyfreithiol sy'n effeithio ar gynllun pensiwn y diffoddwyr tân.

11.2 Nodwyd bod dwy her gyfreithiol genedlaethol a fydd yn effeithio ar Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân; dyfarniad McCloud a dyfarniad O'Brien. Bydd yr aelodau'n cael diweddariad ar y rhain ym mhob cyfarfod.

11.3 O ran y Dyfarniad McCloud/Sargeant, nodwyd bod hwn yn achos sy'n ymwneud â her seiliedig ar wahaniaethu ar sail oedran ac mae'n berthnasol i bob cynllun sector cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU yn gweithio drwy'r prosesau deddfwriaethol a rhagwelir y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn tua mis Hydref 2023. Fodd bynnag, i'r aelodau fydd yn ymddeol cyn y dyddiad hwnnw, fe ystyrir bod hyn yn peri 'niwed uniongyrchol' iddynt. Yn y Gwasanaeth, mae tua 10 o unigolion a allai gyrraedd adeg eu hymddeoliad y bydd y mater hwn yn effeithio arnynt; maent yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth. Nodwyd hefyd y bydd gweinyddwyr y Cynllun yn rhoi cyfrifiadau i'r unigolion hyn gan gynnwys goblygiadau treth. Fodd bynnag, cafodd ei nodi bod y cyfrifiadau hyn yn cymryd llawer o amser. Felly, gofynnir i aelodau'r cynllun nad ydynt yn agosáu at ymddeol ddefnyddio'r gyfrifiannell ar-lein yn hytrach na chysylltu â gweinyddwyr y cynllun.

11.4 Nodwyd bod dyfarniad O'Brien wedi ei dderbyn fel un sy'n berthnasol i bersonél ar y system dyletswydd rhan amser. Cadarnhawyd y bydd Bwrdd Ymgynghori'r Cynllun ar gyfer Cymru yn bwrw ymlaen â hyn ynghyd â Llywodraeth Cymru ac nad oes angen i'r Awdurdod gymryd camau pellach ar hyn o bryd.

11.5 **PENDERFYNWYD nodi'r materion cyfreithiol parhaus sy'n berthnasol i gynllun pensiwn y diffoddwyr tân.**

12 RHEOLI RISGIAU

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi diweddariad ar y trefniadau rheoli risg.

12.2 Nodwyd mai trefniadau rheoli risg sy’n darparu’r sail ar gyfer rheoli cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn effeithiol. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys nodi, gwerthuso, rheoli ac adrodd am risgiau sy'n berthnasol i gyflawni amcanion y cynllun. Mae’r Awdurdod yn rhannu’r risgiau o dan bedwar pennawd:

- Gweithrediadau
- Ariannol
- Cyllid
- Cydymffurfiaeth.

**PENDERFYNWYD**

**(i) nodi’r dull rheoli risg ar gyfer cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân;**

**(ii) cytuno bod y gofrestr risg yn cael ei chynnwys ar agenda pob cyfarfod o’r Bwrdd Pensiwn Lleol a bod pob risg yn cael ei hadolygu ar sail gylchol.**

13 MATERION I'W CYFEIRIO AT YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

13.1 Cytunwyd nad oedd angen cyfeirio unrhyw faterion eraill at yr Awdurdod.

14 UNRHYW FUSNES ARALL

14.1 Fy Mhensiynau Arlein - dywedodd cynrychiolwyr yr undeb y dylid annog yr holl aelodau i gael mynediad at Fy Mhensiynau Ar-lein.

14.2 Hyfforddiant pensiwn ar gyfer personél ar-alwad/dyletswydd rhan amser - Nodwyd y byddai aelodau o staff sy'n gweithio ar y system ar-alwad/dyletswydd rhan amser yn elwa o dderbyn hyfforddiant ar bensiynau. Felly, bydd sesiynau hyfforddi’n cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o staff ar-alwad. Pe bai angen, gellid cynnal sesiynau tebyg ar gyfer aelodau staff ar y system dyletswydd amser cylfawn hefyd.

15 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

15.1 Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 27 Hydref 2022.